

**Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Maldwyn a'r Gororau 2003**


Y DDARLITH FLYNYDDOL

**CYREITHWYR Y STRYD FAWR
YNG NGHYMRU**

gan Emyr O. Parry



Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society



**Eisteddfod Genedlaethol Cymru
Maldwyn a'r Gororau 2003**

Y DDARLITH FLYNYDDOL

**CYFREITHWYR Y STRYD FAWR
YNG NGHYMRU**

gan Emyr O. Parry



Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

A gaf fi yn gyntaf ddiolch i chwi am eich cyflwyniad hael a charedig.

Yn wir y mae yn ffrainc enfawr i mi gael yr anrhydedd o gyflwyno y ddarlith hon yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru yma ym Meifod, Sir Drefaldwyn.

Maldwyn - y fro sydd yn enwog am e mwynder - neu yn hytrach y wlad sydd yn llifeirio o laeth a mêl, fel ag y byddai Mam yn ei ddweud wrthyf. Wrth gwrs mi fuasai hi yn siwr o ddweud hynny, gan ei bod yn enedigol o bentref Hirnant ger Penybontfawr. Yno y bu iddi dreulio ei bywyd cynnar hyd at y flwyddyn 1910 pan fu farw ei mam, a bu i'r teulu symud i fyw i Langollen. Yr oedd ei thad, Edward Edwards, yn ddyddyn hynod o grefyddol. Fe ddarllenai ei Feibl yn ddyddiol, gan gredu ei gynnwys yn llythrennol. Ei obaith oedd y buaswn, rhyw ddiwrnod, yn mynd yn Weinidog yr Efengyl, a mawr oedd ei siom a'i ddychryn pan ddywedais wrtho fy mod yn meddwl mynd yn gyfreithiwr. "Wel ei di byth i'r nefoedd, fachgen" meddai, a sail ei gred oedd bod cyfreithwyr yn ennill eu bywoliaeth trwy ddweud celwyddau, ac felly mai pechaduriaid oeddynt, ac nad oedd iddynt le yn y baradwys honno. A phwy all ei feio am gredu'r fath beth? Onid oedd Beirdd ac Arweinyddion Crefyddol Cymru eisoes wedi mynegi yr un farn? Yn 1703, ysgrifennodd Ellis Wynne o Lasynys, y Bardd Cwsg, yng Ngweledigaeth Uffern:- "Rhostiwch y Cyfreithwyr wrth eu parsant a'u papurau eu hunain, oni ddelo eu perfedd dysgiedig allan." A chredaf mai efe hefyd a ddywedodd yn rhywle bod Cyfreithwyr yn "Yfed chwys a gwaed y tlodion".

Ond, wir, trwy ryw drugaredd ni chafodd Taid fyw i fy ngweld yn rhan o gylch pechadurus y Cyfreithwyr, ond mae yn rhaid i mi gyfaddef, boed ni yn bechaduriaid ai pheidio, yr wyf wedi mwynhau pob ciliad o'mgyrfa broffesiynol yn y gyfraith.

Fis Mai diwethaf, ar gyrraedd oed yr addewid, bu i mi ymddeol o'r byd cyfreithiol, a chan gynnwys yr amser a dreuliais ym Mhrifysgol Aberystwyth yn graddio yn y gyfraith a chyfnod fy erthyglau, treuliais dros hanner can mlynedd yn ymdopi â chyfreithiau ein gwlad.

Cefais y fraint o fod yn un o Gyfreithwyr y Stryd Fawr am bymtheng mlynedd ar hugain yn nhref Llangefni ar Ynys Môn, ac yna am un mlynedd ar ddeg fel Barnwr Rhanbarth, yn rhannol gyfrifol am Lysoedd Sirol Caernarfon, Llangefni, Bae Colwyn a'r Rhyl. Fe dreuliais bron i ugain mlynedd hefyd fel Cofiadur Llys y Goron, ac yn sgîl y cefndir hwn fe gefais y cyfle i adnabod yn bur drwyadl hynt a helyntion Cyfreithwyr y Stryd Fawr - y pwnc a ddewisais ar gyfer y ddarlith hon.

Darlith? Wel dyna a ofynnwyd i mi ei thraddodi, ond rhaid dweud yn hollol onest nad wyf yn ddarlithydd, ni fûm i erioed yn gyfreithiwr academiaidd, felly, os oes yn eich mysgrhai ohonoch sydd yn disgwyl cyflwyniad academiaidd a chaboledig, mawr fydd eich siom, mae arnaf ofn.

Wedi treulio cymaint o amser fel un ohonynt, mae Cyfreithwyr y Stryd Fawr yn bwnc sydd yn agos iawn at fy nghalon, yn wir ym mên fy esgyrn i, a rhaid cyfaddef fy mod yn pryderu cryn dipyn am eu dyfodol.

Gadewch i mi yn gyntaf esbonio pwy yr ydwyf yn ei gynnwys yn y disgrifiad. Cyfeirio yr wyf at y cwmnïoedd bychain i welir yn practiceisio yn y trefi bychain ledled Cymru. Yn eu mysgr fe gewch gwmni un partner, y band undyn, os mynnwch, ac efallai i fyny at ryw hanner dwsin o bartneriaid. Cwmnïoedd sydd â'u cysylltiadau ynghlwm yn y gymdeithas leol; cwmnïoedd sydd yn gwasanaethu y gymdeithas honno trwy gynnig lluo wasanaethau - gwneud ewyllysiau; gweithredu stadau; trosglwyddo eiddo; gweithredu tros y tîrffediannwr neu ei denantiaid; anghydfodau rhwng cymdogion; achosion o anafpersonol o bob math; ac achosion troseddol.

Hanner can mlynedd yn ôl, fe fyddai Cyfreithwyr y Stryd Fawr yn cynnig yr holl wasanaethau hyn i'r trigolion lleol, ac fe fyddai hyn yn meithrin cysylltiad clos rhwng y cyfreithiwr a'i gleient, a'r naill yn ymddiried yn llwyr yn y llall. Ac yn sgîl hyn y daeth y dywediad "Cyfreithiwr Teuluol" i fodolaeth. Yn erbyn y cefndir hwn, yr oedd Cyfreithwyr y Stryd Fawr, yn chwarae rhan bwysig, ac yn uchel eu parch, yn y gymdeithas leol. Fe wyddai'r cyfreithiwr teuluol nid yn unig am helyntion ei gleient, ond pob aelod o'i deulu

hefyd. Pan ddeuai'r cleient i'r swyddfa i drafod ei fusnes, yr oedd yn hanfodol i'r Cyfreithiwr neilltuo y chwarter awr cyntaf o'r cyfweiliad yn rhad ac am ddim i gyfnewid hanesion teuluol a thrwy hynny ennill ymddiriedaeth a chyfeillgarwch y cleient. A phan ddeuai amser talu'r bil, fe wyddai'r Cyfreithiwr y byddai'r cleient yn chwilio am ddisgownt, ac wrth gwrs fe fyddai'r Cyfreithiwr wedi rhagweld hyn pan yn paratoi ei gownt beth bynnag. Weithiau, fe wyddai'r Cyfreithiwr yn iawn nad oedd y modd gan y cleient i dalu ei fil ar law - yn aml iawn nid mewn arian y talwyd, ond gydag ambell sached o datws, ffesant neu ddwy, dwsin o wyau neu gyw iâr neu dwrci pan ddeuai'r Nadolig.

Yr oedd enwau cyfreithwyr y stryd fawr yn nhref Caernarfon lle y cefais fy ngeni a'm magu, bron mor adnabyddus i'r cyhoedd ag enwau'r gweinidogion lleol. Fe fyddai fy nhad yn aml yn sôn am Syr William Ellis Davies, aelod seneddol; Michael Edward Nee, y Maer, John Trefor Roberts, Clerc yr Ynadon, neu "Twrne Cig Moch" fel y'i gelwid gan y Cofis. Ac yn ôl fy nhad, pan fyddai'r mawrion hyn yn cerdded y stryd fe fyddai'r dynion yn codi eu hetiau fel arwydd o barch, a'r merched yn moesyngrymu iddynt. A phan ddeuthum i Langefni yn 1958 yn fuan iawn fe sylweddolais fod yr un parch yn bodoli yno hefyd. Rhyw ddiwrnod yr oedd y Prifardd Rolant o Fôn, gŵr tawel gyda gwallt cringoch, a oedd yn llythrennol yn gyfreithiwr yn y Stryd Fawr yn Llangefni yn dychwelyd i'w waith rhyw brynhawn a daeth tramp i'w gyfarfod ar y palmant. Meddai'r tramp "Faint ydi o'r gloch y Cyfreithiwr Coch?" a Rolant yn ateb fel mellten "Chwarter i ddau, drafaeliwr y llau." A phan ddaeth yr Eisteddfod hon i Langefni yn 1957, yr oedd Rolant mewn ciw i fynd i'r toiled ar y Maes, pan ofynnodd un o'i gleientiaid iddo "Ciw beth yw hwn Rolant Jones?" ac fe atebodd yntau fel fflach "Q.P. rhen gyfaill, Q.P."

Yn ogystal â'u gwaith fel cyfreithwyr, yr oeddynt yn rhoi o'u hamser yn hael i weithgareddau lleol hefyd. Yr oedd amryw yn flaenoriaid yn y capeli, neu yn gynghorwyr lleol, neu yn ymddiriedolwyr rhyw gronfa neu gilydd. Wrth gwrs, yr oedd hyn yn gweithio y ddwy ffordd - trwy roi o'u profiad a'u gallu i'r sefydliadau hyn yr oeddynt hefyd yn lledaenu eu cysylltiadau a thrwy hynny yn cynyddu eu cleientiaid. Yr oedd mwy o amser ganddynt bryd hynny i wneud hyn. Byddent yn dod i'r swyddfa efallai erbyn 10 y bore, mynd adref i ginio am hanner dydd, dod yn ôl erbyn dau y prynhawn, ac yn noswyllo tua phedwar - a byth yn gweithio gyda'r nos. Ond o, y fath newidd a ddaeth i'r bywyd cyfforddus, delfrydol hwn yn ystod y deugain mlynedd canlynol. Bellach mi wn am lawer o gyfreithwyr sydd yn dechrau am hanner awr wedi saith y bore, yn mynd â gwaith adref gyda'r nos, ac yn gweithio dros y penwythnos hefyd, nid er mwyn ennill arian mawr, ond dim ond i gadw i fyny â phwysau gwaith.

Dros y blynyddoedd, un o brif gwynion y cyhoedd yn erbyn y proffesiwn cyfreithiol yw ein bod yn gyndyn i symud ymlaen gyda'r oes. Mi gredaf fod sail i feirniadaeth o'r fath. Gan fod bywoliaeth y cyfreithiwr ynghlwm yn ei gymdeithas leol a bod newidiadau di-rif yn gyfreithiol ac yn gymdeithasol wedi dod i rym yn ystod y

blynnydoedd diwethaf, rhaid oedd derbyn y sialensiau newydd ac addasu ar eu cyfer.

Daeth newidiadau cymdeithasol mawr i rym. Y merched yn mynd allan i weithio yn hytrach nag aros gartref a thrwy wneud hynny yn magu hunan hyder ac annibyniaeth. Nid oeddynt bellach yn fodlon derbyn y gŵr fel meistyr y teulu, ac yn mynnu ei fod yntau yn gwneud ei ran yn rhedeg y cartref. Ar lawer aelwyd yr oedd hyn yn creu tensiynau a'r briodas yn torri i lawr. Tra bod ysgariad yn yr hen oes yn rhywbeth oedd yn dwyn gwarth ar deulu, fe ddaeth cymdeithas i sylweddoli bod mwy o ddrwg effeithiau yn deillio o gynnal priodas anhapus, ac o'r herwydd fe ddaeth ysgariad yn dderbyniol ac fe ddaeth cynnydd mewn cyfraith ysgaru. Yn sgîl hyn, fe sylweddolwyd bod y wraig yn ogystal â'r gŵr wedi cyfrannu tuag at asedau y teulu; yn yr hen amser, os oedd y wraig yn gadael cartref ni fyddai yn ofynnol i'r gŵr ei chynnal, ac yn sicr ni chydabyddid bod ganddi unrhyw hawl ariannol i rannu yn asedau y teulu. Bellach, fel y gwyddom, daeth newidiadau chwyldroadol i'r maes cyfreithiol hwn.

Yna ym myd cyflogi, nid oedd y cyflogwr yn cael teyrnasu fel ag yr oedd yn yr hen ddyddiau. Fe ddaeth systemau i rym i greu hawliau i'r gweithiwr, hawliau a gydnabuwyd gan y llysoedd trwy orfodi y cyflogwr i dalu iawndal i'r gweithiwr mewn amgylchiadau priodol.

Yn yr hen adegau yr oedd y tîrfeddiannwr hefyd a'r hawl ganddo i weithredu fel teyrn, ac i ddi-gartrefu ei ddeiliad fel ag y mynno. Daeth newid enfawr yn y cyfeiriad yma hefyd, ac fe basiwyd llw o ddeddfau i amddiffyn y tenantiaid rhag gormes y tîrfeddiannwr.

Fe ddaeth Deddfau y Ffatrioedd, Deddfau lechyd a Diogelwch ac yn y blaen i rym i wella amgylchiadau gwaith a diogelwch. O ganlyniad, bu cynnydd mawr mewn achosion am iawndal personol yn codi allan o ddamweiniau yn y gwaith.

Yn yr un modd, bu cynnydd arswydus mewn trafniadaeth, ac yn y Deddfau i'w rheoli. Bu i hyn hefyd greu cynnydd mewn achosion o anafiadau personol yn codi allan o ddamweiniau ar y ffyrdd.

Ac yn y byd troseddol, maes sydd wedi cynyddu yn flynyddol gyda'r newidiadau cymdeithasol, gyda'r twf mewn defnydd o gyffuriau, fe fu ffrwydriad anferthol mewn troseddau oedd yn gysylltiedig â chyffuriau gwaharddedig. Gyda'r cynnydd mewn troseddau, daeth llawer mwy o bwysau ar yr heddlu, ac o ganlyniad fe ddaeth y cyhoedd i bryderu llawer iawn am dactegau'r heddlu pan yn holi diffynyddion. Fe esgorodd hyn ar system oedd yn rhoi hawl i'r diffynnydd gael cyfreithiwr yn bresennol pan fo'r heddlu yn ei holi, boed hynny unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos. Fe ddatblygwyd system fel bod cyfreithwyr ar ddyletswydd i roi cyngor rownd y cloc. Ni fedra'r band undyn na'r cwmnïoedd bychan chwaith byth roi y gwasanaeth hwn ac o'r herwydd, yr oedd y gwaith

yn mynd i'r cwmnïoedd mwy oedd a'r staff ganddynt i ddygymod â hyn.

Ystyriwch y cynnydd mewn Mewnlifiad. Y mae hon yn broblem genedlaethol, ond yn effeithio ran fwyaf ar gyfreithwyr y trefydd mawr. Fe ellwch ddeall bod penderfyniadau y Tribiwnlysoedd Mewnlifiad yn taro at wreiddiau hawliau dynol. O ganlyniad y mae'n hanfodol bod cymorth cyfreithiol ar gael i amddiffyn hawliau y rhain. Nid wyf am funud yn gwarafun cymorth cyfreithiol i'r trueiniaid hyn, ond dyma enghraifft arall o wariant enfawr, ac o ganlyniad y Llywodraeth yn galw am gwtogi ar gymorth cyfreithiol.

Datblygiad arall sydd wedi achosi chwyddiant enfawr mewn achosion cyfreithiol yw agwedd cymdeithas tuag at blant. Y mae'n debyg yn yr hen ddyddiau bod cam-drin plant wedi bod yn rhan o strwythur cymdeithas ers blynnydoedd lawer. Yr oedd y mwyafrif o hyn yn digwydd yn y dirgel, ac am na wyddant yn well, yr oedd y plant yn derbyn yr hyn oedd yn digwydd fel rhan o fagwraeth naturiol. Ond gyda datblygiadau cymdeithasol daeth mwy a mwy o'r achosion hyn i'r amlwg, a chyda y cynnydd mewn gwybodaeth feddygol o ddrwg effeithiau ymddygiad o'r fath ar y plant, fe ddaeth cymdeithas i condemnio yr hyn oedd yn digwydd a galw am gamau statudol i ddiogelu plant rhagddynt. Mae yn siwr mai yr enghraifft fwyaf trawiadol o'r ymwybyddiaeth hon oedd yr hyn a ddigwyddodd yn Cleveland yng nghanol yr wythdegau, a arweiniodd at Ymchwiliad Cyhoeddus Butler-Schloss, ac o ganlyniad, Deddf Plant 1989.

Nid yw amser yn caniatáu astudiaeth fanwl o'r Ddeddf bwysig hon. Mae yn effeithio ar hawliau preifat y plant a'u rhieni er enghraifft materion preswyl a chyswllt, newid cyfenw ac yn y blaen. Mae hefyd yn effeithio ar hawliau cyhoeddus yr Awdurdodau Lleol i ymyrryd â materion teuluol, lle mae consŷrn am fagwraeth y plant ar yr aelwyd, gan gynnwys yr hawl i gymryd y plant oddi wrth y rhieni a threfnu i eraill ofalu drostynt, a hefyd i drefnu mabwysiadu y fath blant gan eraill. Gellwch fentro felly bod yr achosion hyn hefyd yn rhoi pwysau ar y pwrs cyhoeddus. Ond nid yn unig hynny, mae gofyn am gyfreithwyr trwyddedig a'r arbenigedd priodol ganddynt i ddelio â'r achosion hyn. Prin y gall y band undyn, neu y cwmnïoedd bychan roi o'u hamser i dderbyn hyfforddiant yn y gwaith hwn, ac o ganlyniad fe welir y gwaith yn mynd i'r cwmnïoedd mawrion.

Nid yw'r rhain ond detholiad bychan o'r newidiadau yn y gymdeithas leol a barodd gynnydd enfawr yn y defnydd o'r llysoedd gan y cyhoedd, ac yn gyfatebol, yng ngwaith y cyfreithwyr. Ychwanegwch at hyn y ffaith bod Cymorth Cyfreithiol wedi dod i rym ar ôl pasio Deddf 1949, ac fe welwch ar unwaith ei bod yn haws o lawer i'r cyhoedd gael mynediad i'r llysoedd, a bod mwy o waith cyfreithiol ar gael i'r cyfreithwyr.

Yn arwynebol, buasai rhywun yn meddwl y buasai Cyfreithwyr y Stryd Fawr yn croesawu hyn. Ond yr oedd hyn yn gorfodi y cwmnïoedd bychain i adolygu eu strwythur

busnes.

Gan fod cymaint o feysydd cyfreithiol newydd wedi agor eu dorau, fe ddaeth yn hollol amhosibl i'r busnesau bychain ddygymod â hwy. Gan fod yna doreth o waith cyfreithiol ni allai y cyfreithiwr cyffredin ennill yr arbenigedd a oedd yn hanfodol i gynghori yn gywir ym mhob maes cyfreithiol. Yn yr hen ddyddiau digon hawdd oedd dygymod â chyfraith tir, neu ewyllysiau, a thipyn o waith troseddol. Ond oherwydd y gorlif o waith cyfreithiol fe ddaeth yn amhosibl dal i fyny â'r holl gyfnewidiadau, a rhaid oedd i gyfreithwyr ddechrau arbenigo mewn gwahanol feysydd. Er mwyn rhoi gwasanaeth cynhwysfawr i'w cwsmeriaid yr oedd yn rhaid ehangu trwy gyflogi mwy o gyfreithwyr yn y cwmni, fel eu bod hwythau yn medru arbenigo, ac o ganlyniad, yr oedd treuliau y cwmni yn cynyddu yn enbyd.

Yr oedd gan y band undyn, a'r cwmnïoedd bychain ddewis - ehangu er mwyn cyfarfod y byd cyfreithiol newydd, neu gyfyngu, a chadw i'r meysydd traddodiadol megis trosglwyddo tir a gwneud ewyllysiau. Fe fu i rai gyfyngu eu busnes i waith tir ac ewyllysiau ond cyn bo hir fe roddwyd yr hawl i dirwerthwyr, banciau, a chwmnïoedd yswiriant ddelio â gwaith tir. Rhaid oedd i'r band undyn gystadlu â'r rhain, ac yn fuan iawn fe ddaeth yn amlwg bod y tirwerthwyr ac eraill yn medru gwneud y gwaith yn rhatach a bod nifer fawr o'r cyhoedd yn troi at y rhain i wneud eu gwaith tir. Yn lle y ffyddlondeb tuag at y cyfreithiwr teuluol a gaed yn y gorffennol, mynd am y rhataf oedd tueddiad y cyhoedd heb falio yr un botwm am safon y cyngor a roddwyd nac ansawdd y gwaith.

Y dewis arall oedd ehangu. Fe welwyd y cwmnïoedd mawr yn prynu y rhai bychain; fe welwyd cwmnïoedd lleol yn ymuno â'i gilydd i greu cwmnïoedd mwy. Ac yn y cwmnïoedd hyn, fe fyddai yn rhaid i'r cleient ymddiried ei waith i ddieithryn o arbenigwr oedd â'r cymhwyster priodol i ddelio â'i broblem. Ac yn sgîl y newidiadau hyn yr oedd yr hen gadwyni o ymddiriedaeth a ffyddlondeb tuag at un cyfreithiwr - sef y cyfreithiwr teuluol - yn gwanhau ac mewn amser yn diflannu. Bellach, oherwydd prysurdeb a'r gofyn i droi gwaith allan yn gyflym, nid oedd amser mwyach i holi am hynt a helynt teulu'r cleient, neu roi amser i dalu'r bil, nac i dderbyn sached o datws neu ddwsin o wyau fel rhan daliad. Na, fe ddaeth yn ofynnol fod pob munud o waith y cyfreithiwr yn cael ei gofnodi, a'i sugno i fewn i'r system, a'i fod yn cael tâl amdano. Yn anffodus, fe ddaeth llawer o gyfreithwyr i droi allan eu gwaith fel rhyw beiriant sosej anferth, gan gadw un llygad ar y cloc a'r llall ar y 'till' a thrwy wneud hynny yn diystyru ansawdd y gwasanaeth a roddid. Yr oedd hyn yn dipyn o newid o'r hen drefn; ac yn awr, yr wyf yn pryderu tybed a yw y pwyslais wedi symud at redeg busnes yn hytrach na rhoi gwasanaeth - effaith uniongyrchol llywodraeth Margaret Thatcher a'i chefnogwyr. Rhaid i mi beidio â chreu yr argraff bod ansawdd y gwasanaeth o reidrwydd wedi dirywio ym mhob cwmni cyfreithiol - yr hyn yr wyf yn ceisio tynnu eich sylw ato yw y perygl o ddirywiad.

Y mae'r cefndir yr wyf eisoes wedi ei amlinellu yn dangos yn eglur bod gorwelion y gyfraith wedi eu lledaenu yn anferthol yn ystod yr hanner canrif diwethaf, sydd yn golygu ei bod bellach yn amhosibl i'r cyfreithiwr modern gynnal ei bractis yn yr un modd ag yr oedd flynyddoedd yn ôl. Oherwydd maint y maes cyfreithiol modern, fe ddaeth gofyn am arbenigedd a dim ond y cwmnïoedd mwy sydd â'r adnoddau priodol ar gyfer hyn. Bellach, os yw y cyfreithiwr i roi gwasanaeth cynhwysfawr sydd yn delio â'r rhan fwyaf o'r meysydd cyfreithiol, nid yw o fewn gallu y band undyn a'r cwmnïoedd bychain i wneud hyn.

Mae yna ddatblygiad arall sydd wedi effeithio yn ddrwg ar y cwmnïoedd bychain. O weld y cynnydd enfawr yn flynyddol mewn gwariant ar Gymorth Cyfreithiol, penderfynodd y Llywodraeth ei bod yn hanfodol diwygio y system. Y gwyn oedd, bod y gost o gyflwyno Cymorth Cyfreithiol yn cynyddu yn flynyddol, ac yn unol â'r hyn oedd yn digwydd ym mhob gwasanaeth cyhoeddus arall, daeth pwysau enfawr ar yr Arglwydd Ganghellor i dorri i lawr ar y gwariant.

Gyda dyfodiad Deddf Mynediad i Gyfiawnder 1999, fe ddaeth yna newid chwyldroadol mewn cymorth cyfreithiol. O fis Ebrill 2000 ymlaen, fe ddaeth yn ofynnol i gyfreithwyr oedd am wneud gwaith Cymorth Cyfreithiol geisio am gytundeb i wneud y gwaith hwn oddi wrth y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol. Ni fyddai'r Comisiwn yn fodlon rhoi cytundeb i unrhyw gyfreithiwr oni bai ei fod yn barod i fabwysiadu safonau o arbenigedd a osodwyd i lawr gan y Comisiwn. I gyd-fynd â'r safonau hyn fe ddaeth yn ofynnol i'r cyfreithiwr ddefnyddio systemau trwyddedig y Comisiwn, a chytuno i gynrychiolwyr y Comisiwn adolygu ei ffeiliau a'i systemau yn ei swyddfa. Fe ddaeth hyn a chynnydd anferth mewn gwaith papur a gwaith gweinyddu nad oedd yn ennill arian, ac o ganlyniad, mae llawer o gyfreithwyr wedi dewis peidio â gwneud gwaith Cymorth Cyfreithiol. Fe olyga hyn bod llawer o'u cleientiaid a oedd angen cymorth cyfreithiol i sicrhau eu hawliau wedi mynd â'u gwaith at gwmnïoedd eraill a'r cyfreithiwr bychan yn colli allan eto.

Newid arall a ddaeth i fodolaeth oedd dileu yr hawl am gymorth cyfreithiol mewn achosion o anaf personol (ond nid mewn achosion esgeuluster meddygol). Fe benderfynwyd ei bod yn bosibl ariannu yr achosion hyn trwy bolisiau yswiriant. O ganlyniad, os oedd cleient yn cymryd allan polisi priodol, yr oedd y cwmni yn mynnu mai cyfreithwyr y cwmni yswiriant oedd yn gwneud y gwaith, ac yn y mwyafrif llethol o'r achosion hyn, cwmnïoedd o'r trefydd mawr fyddai yn gwneud y gwaith. Ar un adeg fe fu hysbysu brwd ar y teledu gan y cwmnïoedd hyn, "No win - no fee" - "Dim ennill, dim tâl", pobl fel Accident Direct, Claims Direct ac eraill, a'r cyhoedd yn ddigon hygoelus i fynd â'u hachosion atynt. Meddyliwch am greadur bach o Gymro o un o bentrefi gwledig Môn neu Faldwyn yn cysylltu â'r cyfreithwyr ar y ffôn, ac yn ceisio egluro ei broblem i Sais uniaith - a hwnnw yn derbyn y cyfarwyddyd, mewn difrif ar ran y cwmni yswiriant, yn hytrach nag ar ran yr unigolyn, a'i unig ddiddordeb yw derbyn y gwaith i wneud yr arian

yn hytrach na rhoi gwasanaeth. Fel Barnwr Rhanbarth fe welais lu o achosion o'r fath, lle yr oedd y gwasanaeth a roddwyd yn warthus. Ond, yn ffodus, mae yna well ffordd o lawer i'r cleient erlyn ei achos trwy gyfreithwyr lleol. Fe all y cyfreithwyr lleol ddarganfod polisi priodol ar gyfer y cleient a thrwy hynny gadw ei gysylltiad, a rhoi i'w gleient wasanaeth cymwys a derbyniol, ond gan fod y maes hwn eto wedi datblygu yn enfawr yn ddiweddar, unwaith eto mae gofyn am arbenigedd os yw y cleient i gael y gwasanaeth gorau.

Mae yn debyg pe buaswn i wedi treulio cyfnod fy erthyglau gydag un o gwmnïoedd y trefydd mawr, neu hwyrach ar ôl cymhwyso fel cyfreithiwr, wedi ymuno ag un o'r cwmnïoedd mawr, fe fuasai'n haws o lawer gennyf ddygymod â'r holl gyfnewidiadau sydd wedi cymryd lle. Ond na, nid felly y bu. Cefais y fraint o gyfreithio mewn tref fechan yng Nghaernarfon ac wedyn yn Llangefni a thrwy hynny fod yn rhan o'r gymdeithas hapus, glos, leol. Ac yn awr bod y llanwr ar drai, yr wyf yn tristhau o weld y gwaith yn cilio draw oddi wrth y cwmnïoedd bychain, a chysylltiadau a adeiladwyd tros nifer o flynyddoedd yn gwasgaru. Ond dyna fe, rhaid symud ymlaen, hyd yn oed os yw hyn yn golygu diddymu'r gadwyn ryfeddol honno rhwng y cyfreithiwr teulu a'i gleientiaid. Yn hyn o beth, nid yw cyflwr y proffesiwn cyfreithiol yn unigryw. Yn y byd meddygol, bellach ni cheir y meddyg teuluol yn galw yng nghartrefi ei gleifion oni bai fod amgylchiadau arbennig yn codi. Bellach y cleifion sydd yn mynychu'r feddygfa. Ac wrth gwrs, mae'r meddygon wedi uno i greu practis grŵp, a chan eu bod mewn un adeilad mae y treuliau o redeg y practis gymaint yn llai. Prin y gall y claf alw i weld meddyg o'i ddewis, ar amrant. Rhaid gwneud apwyntiad i'w weld, rai dyddiau o flaen llaw. Ac os oes galw am weld arbenigwr meddygol rhaid, fel arfer, trafaelio i'w weld. Ac yn yr un modd, yn lle yr ysbytai bach lleol, fe geir yr ysbytai mawr ac efallai hanner can milltir o siwrnai i gyrraedd yno.

Ac yn y byd ariannol, mae yr un peth wedi digwydd i'n banciau. Yn lle gweld eich rheolwr lleol, mae yn rhaid cysylltu â rhyw reolwr diwyneb mewn swyddfa rai milltiroedd i ffwrdd. Ac os yn gwneud ymholiad ar y ffôn, dyn a wŷr pwy sydd yn siarad â chwi. Dywedodd cyfaill i mi ychydig yn ôl ei fod wedi ffonio cangen H.S.B.C. lleol i holi am gyflwr ei gyfrif banc. Bu raid iddo ddisgwyl am ychydig tra yr oedd ei alwad yn cael ei sianelu i ryw swyddfa arall - ac fe ddarganfu ei fod yn siarad â rhyw ferch yn India i drafod ei broblem.

Mae arnaf ofn felly bod y proffesiwn cyfreithiol yn prysur fynd i'r un cyfeiriad amheronol, ac yn sgîl hynny os na fyddwn yn ofalus, y mae'n berygl y bydd dirywiad mawr yn y gwasanaeth a roddir. Yn anffodus, ni welaf unrhyw ffordd i rwystro y datblygiad hwn yn llwyr, ond credaf fod modd harneisio'r tueddiad a gwneud ymdrechion i gadw y gwaith yn lleol, a thrwy hynny i raddau helaeth, mi obeithiaf, ddal ein gafael yn ein cysylltiadau y tu fewn i'r gymdeithas leol a rhoi gwasanaeth o safon.

Wel, pa gamau felly sydd yn agored i gyfreithwyr y stryd fawr i adfer eu rôl yn y gymdeithas leol, ac i rwystro y gwaith rhag mynd allan o'r ardal?

Ers tro bellach, mae Cymdeithas y Cyfreithwyr wedi caniatáu hysbysebu, ac o bosibl fel ag y gŵyr rhai ohonoch, fe welwch eu hysbysiadau yn y Llyfr Tudalennau Melyn, mewn Papurau Newydd, a rhai o'r cwmnïoedd mawr hyd yn oed ar y radio neu y teledu. Ond yn fy marn i, y ffordd fwyaf priodol i gryfhau y cysylltiad gyda'r werin bobl fyddai hysbysebu yn y papurau bro - ac wrth gwrs fe fyddai hyn trwy gyfrwng y Gymraeg. Effaith hyn fyddai atgoffa y gymdeithas leol o fodolaeth y cwmni, a bod gwasanaeth cynhwysfawr trwy y Gymraeg ar gael ynddo. Peth arall i'w gysidro yw buddsoddi mewn technoleg gwybodaeth. Heddiw yn fwy nag erioed y mae pwyslais mawr yn cael ei roi ar ddefnyddio cyfrifiaduron, a'r we ac yn y blaen. Oherwydd natur gwaith y cyfreithiwr y mae mewn cysylltiad yn ddyddiol â llawer o gwmnïoedd eraill, ac os y bydd y rhai hynny a'r dechnoleg briodol ganddynt, a'r cyfreithiwr lleol hebdo, ni all gyflawni gwasanaeth o safon. Wrth gwrs mae hyn yn golygu buddsoddiad hael i gychwyn, ond ar y llaw arall, pan fo'r system mewn bodolaeth, fe welir llai o alw am gyflogi staff, E-bost yn rhatach ac yn gynt na defnyddio'r post a'r gallu i gadw i fyny ag unrhyw newidiadau diweddar yn y gyfraith drwy ddefnyddio'r we yn gaffeioliad mawr. O wneud hyn bydd y cyfreithiwr lleol yn cynnig gwell ansawdd o wasanaeth na llawer, a thrwy hyn bydd ei gwmi yn llawer mwy deniadol i aelodau'r cyhoedd.

Y mae'n bwysig bod cyfreithwyr y stryd fawr yn ymddiried yn ei gilydd. Ym maes trosglwyddo tir, yn yr hen ddyddiau yr oedd yna gostau safonol am wneud y gwaith, a'r cyfreithwyr lleol i gyd yn glynu wrthynt. Fel hyn, nid oedd unrhyw bwrpas siopio o gwmpas i geisio cael pris rhatach. Ond fe wnaed i ffordd â'r costau safonol, ac o ganlyniad, yr oedd yn agored i bob cyfreithiwr godi beth a fynno. Er mwyn cael y gwaith, yr oedd rhai yn codi lawer yn llai nag o'r blaen - mewn effaith yn ceisio torri gyddfau ei gilydd. Tra bo prisiau rhatach efallai yn arwynebol o fantais i'r cyhoedd, trwy ostwng y costau, yr oedd gostyngiad sylweddol yn y gwasanaeth a roed. Yr oedd hyn hefyd yn creu cryn ddrwg deimlad ymysg y cyfreithwyr lleol, ac nid oedd hyn o fantais i neb. Os yw cyfreithwyr tu fewn i gylch fechan i gadw eu statws a'u parch y mae'n ofynnol iddynt gyfarfod o dro i dro i drafod a chysoni eu costau, i rannu gwybodaeth, i drefnu i rannu adnoddau - er enghraifft i sefydlu llyfrgell gyfreithiol gymunedol a thrwy hynny dorri i lawr ar gostau llyfrau yn eu cwmnïoedd. Fel ag y canodd Hogiau'r Wyddfa ers talwm, "Gyda'n gilydd fe safwn ni." A dyna paham yr wyf yn croesawu sefydlu Cymdeithas y Cyfreithwyr yng Nghymru, neu yn fwy lleol, Cymdeithas Cyfreithwyr Canolbarth Cymru, ac o fewn fy mhlwyf fy hun Cymdeithas Cyfreithwyr Gwynedd - lle y ceir fforwm i drafod datblygiadau a phroblemau y proffesiwn ac wrth gwrs y cyfle i ddod i adnabod ei gilydd yn well, a thrwy hyn feithrin cyfeillgarwch a chydweithrediad a rhoi gwell gwasanaeth i'r gymuned leol.

Peth arall na ddylid ei anghofio yw effaith y Cynulliad ar y gyfraith yng Nghymru. Mae yna gyfreithiau sydd wedi eu pasio gan y Cynulliad sydd yn gyfyngedig a phe byddai rhywun sydd â phroblem gyfreithiol yng Nghymru yn mynd at gyfreithwyr o'r tu allan, tybed a fyddai y cyfreithwyr hynny yn ymwybodol o'r ffaith y gall fod y sefyllfa gyfreithiol ar y broblem yn Lloegr yn wahanol i'r rheol yng Nghymru? Onid oes cyfle yn y fan hon i Gyfreithwyr y Stryd Fawr yng Nghymru i drwytho eu hunain yn y rheolau cyfreithiol sydd yn unigryw i Gymru a thrwy wneud hynny gadw y gwaith yn lleol?

Gan nad wyf bellach yn un o Gyfreithwyr y Stryd Fawr fy hunan, ni allaf honni unrhyw arbenigedd yn y pwnc llosg o Yswiriant Proffesiynol. Fel ag y gwyr pob cyfreithiwr, y mae yn hanfodol iddo gael yswiriant o'r fath. Ond mae y taliadau i'r cwmnïoedd yswiriant yn hynod o ddrud, ac mae llawer o'r cwmnïoedd bychain yn gorfod ymdrechu yn galed iawn i'w talu. Y rheswm am hyn yw bod cymaint o hawliadau yn cael eu gwneud gan y cyhoedd. Nid wyf yn grwgnach am hynny o gwbl, ond mae y rhan fwyaf o'r rhain yn deillio o'r dinasoedd mawr. Gwn bod maint y taliadau yn cael eu selio ar incwm y cwmni, ond tybed a oes lle i Gymdeithas Gyfreithwyr Cymru ymchwilio i'r posibilrwydd o gael telerau arbennig gan y cwmnïoedd yswiriant i'r cyfreithwyr bychan yng Nghymru gan ei bod yn sefyll i reswm bod y boblogaeth gymaint yn llai yn yr ardaloedd gwledig, a bod y nifer o'r hawliadau o'r ardaloedd gwledig o angenrheidrwydd lawer yn llai. Byddai hyn yn golygu na fyddai y cyfreithwyr bychan gwledig yn gorfod tanysgrifio hawliadau y dinasoedd mawr. Nid oes dim byd newydd yn y syniad gan fod sefyllfa debygol yn bodoli gydag yswiriant moduron - taliadau llai mewn ardaloedd gwledig nag a geir yn y dinasoedd mawrion, oherwydd bod llai o hawliadau.

Ac i gloi, fe hoffwn dynnu sylw at y sefyllfa unigryw sydd gennynn ni yma yng Nghymru oherwydd yr Iaith Gymraeg i ddiogelu sefyllfa Gyfreithwyr y Stryd Fawr. Yn yr ardaloedd Cymraeg yng Ngogledd-Orllewin a De-Orllewin Cymru, neu yn hytrach yn unrhyw ran o Gymru lle y mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio, y mae y cyfle i ddatblygu gwasanaeth cwbl ddwyieithog. Y mae yn hen bryd i ni gladdu unwaith ac am byth y syniad mai Saesneg yw iaith y llysoedd, yng Nghymru. Nid felly o gwbl. Tros y deng mlynedd diwethaf yn arbennig mae camau anferth wedi eu cymryd i hybu ein defnydd o'r Iaith Gymraeg yn y Llysoedd yng Nghymru. Nid yw amser yn caniatáu i mi roi darlun manwl o'r datblygiadau hyn - buasai yn ofynnol traddodi darlith arbennig ar y pwnc - ond yn fyr, dyma rai ohonynt:-

1. Fe fu i'r Gwasanaeth Llys neilltuo cyllideb sylweddol ar gyfer cyflwyno gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn ein Llysoedd. Gyda chymorth Bwrdd yr Iaith Gymraeg, fe fu i'r Gwasanaeth Llys ddatblygu polisi Iaith, ac yn sgîl y polisi hwnnw, fe ddaeth nifer fawr o welliannau.

2. Fe sefydlwyd yn y Llys Sirol yn Llangefni, uned arbennig, sef Uned yr Iaith

Gymraeg. Yma, gyda staff o lai na hanner dwsin, y mae darpariaeth yn cael ei gwneud at ddefnyddio y Gymraeg ym mhob llys trwy Gymru gyfan. Fe baratwir ffurflenni Cymraeg, fe wneir trefniadau i gyfieithu dogfennau a ddefnyddir mewn gwrandawliadau yn yr iaith Gymraeg, fe drefnir cyfieithwyr trwyddedig ar gyfer treialon a gynhelir yn y Gymraeg, a chyda chydweithrediad Swyddfa Gweinyddwr Cylchdaith Cymru a Chaer, fe wneir yn siwr bod Barnwr Cymraeg ei iaith ar gael i glywed achosion a gynhelir yn y Gymraeg, a bellach trwy reolau y Llys y mae'n ofynnol i gyfreithwyr ofalu eu bod yn rhoi rhybudd priodol o flaen llaw er mwyn trefnu gwasanaeth cwbl Gymraeg lle bo gofyn amdano.

3. Bellach, mae y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol yn trefnu cwrs blynyddol ar gyfer Barnwyr a Chadeiryddion Tribiwnlysoedd i'w hyfforddi yn y defnydd o'r Gymraeg yn y Llysoedd, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a geir yn y Gymraeg o'r un safon â'r gwasanaeth Saesneg.

4. Pan fo penodiadau barnwrol yn cael eu gwneud ar gyfer yr ardaloedd Cymraeg yng Nghymru, y mae'n hanfodol bellach i'r ymgeiswyr fod yn ddigon trwyadl yn yr iaith i gynnal treialon yn y Gymraeg.

5. Y mae y Cynulliad ynghyd â'r Gwasanaeth Llys hefyd yn cymryd rhan flaenllaw yn y datblygiadau hyn. Mae rhaglen ar law i geisio safoni termau cyfreithiol Cymraeg, gyda'r bwriad o wahodd sefydliadau a chwmiioedd yng Nghymru i ymgymryd â'r gwaith. Mae hon yn anferth o sialens, ac fe fydd yn hynod o gostus i'w chyflawni, ond i bawb roi o'i orau, ac i'r brwdfrydedd presennol beidio â phallu, yna fe ddaw llwyddiant.

6. Ac wrth sôn am ein Prifysgolion yng Nghymru, credaf y bydd cyn bo hir, bump ohonynt a chanddynt adran gyfreithiol. Ynddo ei hunan, mae hyn yn beth gwych - ond paham na all un neu fwy o'r rhain ddysgu'r gyfraith trwy gyfrwng y Gymraeg? Hwyrach na fyddai cynnal cwrs tair blynedd trwy y Gymraeg ddim yn ymarferol, ond paham na ellir dyfeisio cyrsiau gyda'r nos, neu gwrs blwyddyn, er mwyn hyfforddi ein darpar gyfreithwyr i weithredu a chynnal achosion trwy gyfrwng y Gymraeg? Fe soniais eisoes am benodiadau barnwrol, a'r galw am fedusrwydd yn y Gymraeg - oni fuasai hyn yn creu cronfa o gyfreithwyr a'r cymwysterau gofynnol ganddynt i ymgeisio am swydd farnwrol yn yr ardaloedd Cymraeg yng Nghymru?

7. A gaf i gyfeirio at un mater pwysig arall. I ni sydd yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg yn ein Llysoedd, mae ein dyled yn anferth i'r Barnwyr a'r Swyddogion Llys, a Swyddogion y Cynulliad sydd wedi rhoi oriau lawer i mewn i ddatblygu polisi Iaith ar gyfer y Llysoedd yng Nghymru. Mae ein diolch yn enfawr i Farnwyr Llywyddol, Barnwyr Cyswllt, Aelodau Pwyllgor Sefydlog yr Iaith ar ein Cylchdaith ac i'r Cynulliad hefyd a fy apêl heddiw ar faes yr Eisteddfod - cadarnle yr Iaith Gymraeg - yw i chwi y cyfreithwyr Cymraeg ieuainc i ysgwyddo y baich fel nad aiff yr ymdrechion hyn i'r gwellt. Mae y

dymheredd bresennol yn hynod o gefnogol i'r iaith ac os diffoddir y fflam, anodd iawn fyddai ei ailgynnau.

Ond y mae'n hanfodol i mi bwysleisio - er mor werthfawr yw y datblygiadau a'r trefniadau hyn i ffyniant yr iaith Gymraeg, y mae yn hollol angenrheidiol fod y cyhoedd yn manteisio arnynt. Credaf ei bod yn ddyletswydd ar bob cyfreithiwr Cymraeg i dynnu sylw eu cleientiaid at y ddarpariaeth hon, ac i danlinellu nad gwasanaeth eilradd sydd ar gael ar gyfer achosion Cymraeg yn y llysoedd yng Nghymru, ac mai mantais yn hytrach nag anfantais i'r Cymro Cymraeg fyddai cyflwyno ei achos yn ei famiaith.

Gwelaf fod yn ein mysg y prynhawn yma amryw o Gyfreithwyr y Stryd Fawr. Da chwi, dyma gyfle arbennig i chwi gadw gwaith cyfreithiol yn lleol. Cynigwch wasanaeth Cymraeg, neu wasanaeth dwyieithog i'ch cymuned, gan bwysleisio y ffaith nad gwasanaeth eilradd yw gwasanaeth Cymraeg. Eglurwch iddynt y trefniadau sydd bellach wedi eu sefydlu yn y llysoedd ar gyfer y Gymraeg a bod modd i gyflwyno eu hachosion yn gwbl hyderus a chyda graen trwy y Gymraeg. Y mwyaf o ofyn fydd am y Gymraeg yn ein Llysoedd, y mwyaf fydd yr ymdrechion i wella safonau.

Cofiwch y cwpled "Iaith bereiddiaf blannodd Duw,
Yng nghalon bob Cymro i'w chadw yn fyw"

Y mae yn amser pryderus i Gyfreithwyr y Stryd Fawr. Y mae'n rhaid symud ymlaen gyda'r amseroedd, ond gydag ymdrech, a chydweithrediad, ewyllys da a dyfalbarhad, fe ddaw eto haul ar fryn, a mawr fydd eich parch a'ch urddas yn y gymdeithas leol.